------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| **Fideo gynadledda drwy Zoom** | **Bethan Davies** |
| Dyddiad: Dydd Llun, 30 Tachwedd 2020 | Clerc y Pwyllgor |
| | 0300 200 6372 |
| Amser: 14.30 | SeneddCyllid@senedd.cymru |

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

**Ar 16 Tachwedd 2020, penderfynodd y Pwyllgor wahardd cyhoedd o eitem 1 o'r cyfarfod heddiw (mae eitem 1 yn sesiwn ar y cyd gyda'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a bydd yn cael ei chynnal gan y Pwyllgor hwnnw.**

## 1 Grŵp Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol - Briff technegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru

(13.30-14.15) (Tudalennau 1 - 24)

Matthew Jenkins - Dirprwy Gyfarwyddwr, Partneriaethau a Chydweithredu, Llywodraeth Cymru

Anna Adams - Dirprwy Gyfarwyddwr, Pennaeth Polisi Strategaeth Treth ac Ymgysylltu, Llywodraeth Cymru

**Papurau ategol:**

FIN(5)-24-20 P1 - Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Briff technegol - 17 Tachwedd 2020

FIN(5)-24-20 P2 - Sleidiau cyflwyniad

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Bydd y Pwyllgor Cyllid yn cynnal gweddill y cyfarfod**

**EGWYL (14.15-14.30)**

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 3 Papur(au) i'w nodi

(14.30) (Tudalennau 25 - 29)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2020

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2020

**3.1 PTN 1 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2020 - 11 Tachwedd 2020**

(Tudalennau 30 - 41)

**3.2 PTN 2 - Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru Cod Ymarfer Archwilio - 18 Tachwedd 2020**

(Tudalennau 42 - 43)

**3.3 PTN 3 - Llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip: Dyletswydd economaidd-gymdeithasol - 25 Tachwedd 2020**

(Tudalennau 44 - 45)

## 4 Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a gweithredu'r Fframwaith Cyllidol: Sesiwn dystiolaeth 9

(14.30-15.30) (Tudalennau 46 - 88)

Rebecca Evans AS - y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Andrew Jeffreys - Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru

Julian Revell - Pennaeth Dadansoddiad Cyllidol, Trysorlys Cymru

**Papurau ategol:**

FIN(5)-24-20 P3 Llywodraeth Cymru - Papur tystiolaeth

Briff ymchwil

**5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o'r cyfarfod ar 7 Rhagfyr**

(15.30)

**6 Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a gweithredu'r Fframwaith Cyllidol: Trafod y dystiolaeth**

(15.30-15.45)

**7 Adroddiad ar Alldro 2019-20 - Llywodraeth Cymru**

(15.45-16.00) (Tudalennau 89 - 116)

**Supporting papers:**

FIN(5)-24-20 P4 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd a'r Adroddiad ar Alldro 2019-20 atodedig - 18 Tachwedd 2020

**8 Rôl a Chylchoedd Gwaith Sefydliadau Cyllidol Annibynnol - Cynulliad Gogledd Iwerddon**

(16.00-16.15) (Tudalennau 117 - 143)

**Supporting papers:**

FIN(5)-24-20 P5 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon a'r papur ymchwil cysylltiedig: Role and Remits of Independent Fiscal Institutions - 18 Tachwedd 2020

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 16 Tachwedd 2020

Amser: 14.30 - 16.45

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6559

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Nick Ramsay AS<br>Mark Reckless AS |
| Tystion: | Dyfed Alsop, Awdurdod Cyllid Cymru<br>David Phillips, Sefydliad Astudiaethau Cyllid<br>Sam Cairns, Awdurdod Cyllid Cymru<br>Rebecca Godfrey, Awdurdod Cyllid Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mike Hedges AS a Rhianon Passmore AS.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 PTN 1 - Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) - Asesiad Effaith Rheoleiddiol Diwygiedig - 5 Tachwedd 2020

## 3 Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol: Sesiwn dystiolaeth 7

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan David Phillips, Cyfarwyddwr Cyswllt y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, ar ei ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol.

## 4 Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol: Sesiwn dystiolaeth 8

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dyfed Alsop, Prif Weithredwr Awdurdod Cyllid Cymru; Rebecca Godfrey, Prif Swyddog Strategaeth Awdurdod Cyllid Cymru; a Sam Cairns, Swyddog Gweithredu Awdurdod Cyllid Cymru ynghylch ei ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol.

## 5 Cynnig i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod heddiw; y cyfarfod ar 23 Tachwedd 2020, ac eitem 1 o'r cyfarfod ar 30 Tachwedd.

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Gwaith craffu blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru: Trafod yr adroddiad drafft

7.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft.

## 8 Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft yn amodol ar fân newidiadau.

## 9 Bil y Farchnad Fewnol: Trafod yr adroddiad drafft

9.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft yn amodol ar fân newidiadau.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 23 Tachwedd 2020

Amser: 14.30 - 16.05

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6560

# Cyfarfod preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Nick Ramsay AS |
| Tystion: | Lynsey Edwards, Llywodraeth Cymru<br>Laura Fox, Llywodraeth Cymru<br>Andrew Hewitt, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod rhithwir.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mark Reckless AS a Siân Gwenllian AS.

## 2 Galluogi newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru – sesiwn briffio technegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru.

2.1 Cafodd y Pwyllgor wybodaeth dechnoegol am alluogi newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru gan Andrew Hewillt, Strategaeth Drethi, Trysorlys Cymru;

Laura Fox, Strategaeth Drethi Trysorlys Cymru; a Lynsey Edwards, Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru.

## 3 Etifeddiaeth Pwyllgor Cyllid y bumed Senedd

3.1 Trafododd y Pwyllgor y papur cwmpasu ar yr ymchwiliad etifeddiaeth.

## 4 Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2021-22: Trafod ymateb y Comisiwn

4.1 Trafododd y Pwyllgor ymateb y Comisiwn.

## 5 Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a gweithredu'r Fframwaith Cyllidol: Papur ymgysylltu â dinasyddion

5.1 Trafododd y Pwyllgor y papur ar ymgysylltu â dinasyddion.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-RE-3187-20

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

11 Tachwedd 2020

Annwyl Llywydd,

**GORCHYMYN ARDRETHU ANNOMESTIG (LLUOSYDD) (CYMRU) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud y Gorchymyn Adrethu Annomestic (Lluosydd) (Cymru) 2020, dan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i'r Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2021, ddarostyngedig i gytundeb y Cynulliad. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig yr wyf yn bwriadu eu gosod pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn a nodwyd ym mharagraff 5(15) o Atodlen 7 i'r Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae'n rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo'r offeryn hwn cyn i'r Cynulliad gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol, neu cyn 1 Mawrth yn y flwyddyn ariannol flaenorol, pa un bynnag yw'r cynharaf, er mwyn iddo fod yn effeithiol. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi wybod fy mod yn bwriadu cynnal y ddadl ynglŷn â'r is-ddeddfwriaeth hon yn y cyfarfod llawn ar 8 Rhagfyr.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

*Gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 5(15) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru cyn i'r Senedd gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021, neu cyn 1 Mawrth 2021 (pa un bynnag sydd gynharaf).*

---

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

---

# 2020 Rhif (Cy. )

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

O ran Cymru, cyfrifir y lluosydd ardrethu annomestig yn unol â pharagraff 3B o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("y Ddeddf") ar gyfer pob blwyddyn ariannol pan nad oes rhestrau ardrethu newydd yn cael eu llunio. Nid oes rhestrau ardrethu newydd yn cael eu llunio ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021.

Mae'r fformiwla ym mharagraff 3B o Atodlen 7 i'r Ddeddf yn cynnwys eitem B, sef y mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn o dan sylw, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer o dan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i'r Ddeddf i bennu, drwy Orchymyn, swm gwahanol ar gyfer eitem B. Os yw Gweinidogion Cymru yn arfer y pŵer hwnnw mewn perthynas â blwyddyn ariannol, rhaid i'r swm gwahanol a bennir felly fod yn llai na'r mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Y mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol flaenorol yw 294.3.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu mai swm eitem B ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021 yw 292.6.

Yn unol â pharagraff 5(15) o Atodlen 7 i'r Ddeddf, ni fydd y Gorchymyn hwn ond yn dod i rym os yw'n

cael ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru cyn i Senedd Cymru gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021, neu cyn 1 Mawrth 2021 (pa un bynnag sydd gynharaf).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

*Gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 5(15) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru cyn i'r Senedd gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021, neu cyn 1 Mawrth 2021 (pa un bynnag sydd gynharaf).*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif (Cy. )

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | ***** |
| *Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)* | |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir i'r Trysorlys gan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym drannoeth y diwrnod y'i cymeradwyir drwy benderfyniad gan Senedd Cymru, ar yr amod y cymeradwyir y

(**1**) 1988 p. 41.

(**2**) Yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd y pŵer o dan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'r graddau yr oedd yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi, mae'r pŵer bellach wedi ei freinio yng Ngweinidogion Cymru.

Gorchymyn cyn i Senedd Cymru gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021, neu cyn 1 Mawrth 2021 (pa un bynnag sydd gynharaf)(**1**).

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Y lluosydd ardrethu annomestig**

**2.** At ddiben paragraff 3B o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021, pennir mai 292.6 yw B.



*Enw: Rebecca Evans MS*
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad: 11/11/2020

(**1**) Mae cyfeiriadau yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Explanatory Memorandum to the Non-Domestic Rating (Multiplier) (Wales) Order 2020**

This Explanatory Memorandum has been prepared by Local Government Strategic Finance Division and is laid before the Senedd Cymru in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

**Minister's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Non-Domestic Rating (Multiplier) (Wales) Order 2020.
I am satisfied that the benefits justify the likely costs.

**Rebecca Evans MS**
**Minister for Finance and Trefnydd**
**November 2020**

**Contents**

PART 1: EXPLANATORY MEMORANDUM 3
1. Description 3
2. Matters of Special Interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee 3
3. Legislative background 4
4. Purpose and Intended Effect of the Legislation 4

PART 2: REGULATORY IMPACT ASSESSMENT ........................................ 6

ANALYSIS OF OTHER EFFECTS AND IMPACTS........................................ 7

## PART 1: EXPLANATORY MEMORANDUM

### 1. Description

This Order sets the increase in the non-domestic rating (NDR) multiplier for Wales for the financial year 2021-22. It reflects the use of the Consumer Prices Index (CPI) rather than the Retail Prices Index (RPI) to calculate the multiplier.

Under the Local Government Finance Act 1988 (the 1988 Act), the annual increase in the multiplier should be calculated using the RPI figure for the September preceding the financial year to which the multiplier applies. For 2021-22, the RPI figure would have been 294.3.

The multiplier is applied to the rateable value (RV) of each non-domestic property to calculate its non-domestic rates bill. The Order applies the CPI figure in place of the RPI figure. This results in a smaller increase in the 2021-22 rates bills to be paid by businesses and other non-domestic property owners than would be the case if the RPI figure were used.

The formula used for calculating the NDR multiplier in a non-revaluation year is:

(A x B) / C.

A is the multiplier for the preceding financial year
B is the RPI for September of the preceding financial year
C is the RPI for September of the financial year two years before.

Welsh Ministers may substitute a figure for B which is less than the RPI figure. As CPI is used as the measure for increasing the multiplier, B is calculated based on CPI.

The substituted figure for B is calculated dividing CPI from September of the preceding financial year by CPI from September of the financial year two years before and multiplying by RPI for September of the financial year two years before. For 2021-22, B has been calculated as 292.6.

This results in the multiplier for 2021-22 being 0.538 instead of 0.541.

### 2. Matters of Special Interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee

Under the 1988 Act, an order which enables the multiplier to be increased at below the level of RPI must be approved by the Senedd through a made affirmative resolution procedure (paragraph 5(15) of Schedule 7 to the 1988 Act). Under the procedure, after the Order is made, it must be laid before the Senedd for approval.

The relevant provision specifically provides that the Order must be approved by the Senedd before the votes on the Local Government Finance Reports (the final local government settlement and final police settlement) take place, or before 1 March in the preceding financial year, whichever is earlier. The debate on the

local government settlement for 2021-22 is expected to take place in early March 2021.

## 3. Legislative background

Under the 1988 Act, for financial years in which new rating lists do not apply (i.e. all years which are not revaluation years), the default position for determining the non-domestic rating multiplier for Wales is to apply the formula set out in paragraph 3B to Schedule 7 to the 1988 Act. An element in that formula is the RPI for September of the financial year preceding the year concerned. The financial year beginning 1 April 2021 is not a revaluation year and therefore there will not be a new rating list.

Under paragraph 5(3) of Schedule 7 to the 1988 Act, the Welsh Ministers have the power to increase a multiplier at below the level of inflation as measured by RPI. It is this power which the Welsh Ministers propose to exercise in making this Order.

The Welsh Ministers have adopted the approach of increasing the multiplier using CPI rather than RPI for each financial year since 2018-19.

As the Welsh Government is diverging from the prescribed practice of increasing the multiplier by RPI, Ministers are required, under paragraph 5(15) of Schedule 7 to the 1988 Act, after making the Order to limit the increase at below RPI, to lay it before the Senedd for approval.

The Order is subject to a made/provisional affirmative procedure and must be approved by the Senedd for it to be effective. It is also a requirement of the 1988 Act that any such Order is approved before the local government finance reports (for unitary authorities and police and crime commissioners) are approved by the Senedd, or before 1 March in the preceding financial year, whichever is earlier. This requirement for prior agreement of the multiplier arises because it plays a vital part in calculating the total funding available in the annual settlements.

The debate on the Local Government Finance Report for unitary authorities for 2020-21 is expected to be scheduled for debate in early March 2021. The debate to approve the Order is scheduled to take place on 8 December 2020.

## 4. Purpose and Intended Effect of the Legislation

The Order will have the effect of increasing the NDR multiplier by CPI rather than RPI for the financial year 2021-22. By applying CPI for 2021-22, the multiplier will be set at 0.538.

This will mean that non-domestic property owners and occupiers in Wales will receive lower rates bills for 2021-22 than they would have if RPI was used.

Primary legislation does not currently provide the Welsh Ministers with powers to permanently change the rate of inflation used to calculate the multiplier from RPI to CPI. Therefore, the Order will apply for 2021-22 only.

Similar orders were made to effect the equivalent change for 2018-19 to 2020-21.

All owners or occupiers of non-domestic properties who pay rates will benefit from the change. Even properties which receive significant amounts of rates relief will benefit as the residual amounts will be calculated using a lower multiplier.

All the non-domestic rates collected in Wales are pooled centrally and distributed to unitary authorities and to police and crime commissioners as part of the annual local government settlements. The total amount to be distributed in this way is known as the Distributable Amount. It is calculated by applying the multiplier to the estimated national total of rateable value, taking account of any surplus or deficit carried forward from previous years.

The Distributable Amount is a key component of the annual local government revenue settlements and the 1988 Act requires that it is approved by the Senedd as part of the annual local government finance reports. The multiplier therefore needs to be determined before the annual settlements can be finalised.

There is a clear purpose to the policy behind the legislation. It is aimed at supporting economic growth and reducing the tax liability for businesses and other non-domestic ratepayers in Wales, ensuring they are not at a disadvantage compared to other parts of the United Kingdom.

Using CPI rather than RPI to increase the multiplier in Wales will reduce the income into the non-domestic rates pool in 2021-22. The reduction will be fully funded by the Welsh Government and will be reflected in the calculations for the local government settlements so that there is no financial impact on local authorities or police budgets.

CPI has been used to calculate the multiplier in Wales since 2018-19 and the Welsh Ministers have determined that CPI should be used to calculate the multiplier for future years. The use of CPI since 2018-19 has been achieved through annual orders. To make the change on a permanent basis requires primary legislation to amend the Local Government Finance Act 1988. Provisions are included in the Local Government and Elections (Wales) Bill to achieve this. It is expected that the amendment will have effect in time for the 2022-23 financial year.

## 5. Consultation

No consultation has been undertaken on the policy behind this Order. The policy position has not changed since this was agreed for the 2018-19 financial year. The proposals benefit all ratepayers in Wales and there is no impact on the resources available to local authorities.

## PART 2: REGULATORY IMPACT ASSESSMENT

### Options

***Option 1 – Use RPI to increase the multiplier***

This option would increase the multiplier for 2021-22 by RPI at September 2020 (1.1%), resulting in a multiplier of 0.541.

***Option 2 – Increase the multiplier by the equivalent of CPI***

This option would increase the multiplier for 2021-22 by CPI at September 2020 (0.5%), resulting in a multiplier of 0.538.

### Costs and benefits

***Option 1 – Use RPI to increase the multiplier***

The following illustrates the effect of using RPI to increase the multiplier on the non-domestic rates bill of a property.

For example, if a property has a rateable value (RV) as assessed by the Valuation Office Agency of £15,000, the rates bill for 2020-21 (before any reliefs) would have been:

RV   £15,000 x 0.535 = £8,025

Applying RPI would result in an annual rates bill for 2021-22 of:

RV   £15,000 x 0.541 = £8,115

The increase in the annual charge would therefore be £90.

***Option 2 – Increase the multiplier by the equivalent of CPI***

This option would result in a lower increase in rates bills for all non-domestic properties than under RPI.  Using the example from Option 1.

The rates bill for 2020-21 was:

RV   £15,000 x 0.535 = £8,025

An increase using CPI for 2021-22 would give a bill of:

RV   £15,000 x 0.538 = £8,070

The increase in rates for the property would therefore be £45, £45 less than if RPI were used.

The total saving to non-domestic ratepayers across Wales is estimated at around £7.3m, not accounting for the impact of relief schemes.  This would be a recurrent saving as the multiplier cannot be increased at a level above RPI in future years. This saving is additional to the savings made from applying the same approach in each year since 2018-19.

**Option selection**

The cost of limiting the increase in the multiplier (Option 2) would be borne by the Welsh Government.  There would be no financial impact on local authorities.  The approach also means that ratepayers in Wales would not be at a disadvantage compared to other parts of the UK.

Option 2 is therefore the preferred option.

**Analysis of other effects and impacts**

**Promoting Economic Opportunity for All (Tackling Poverty)**
Limiting the increase in the multiplier provides support for all ratepayers which could help to prevent hardship.

**UNCRC**
No particular impact on the rights of children has been identified.

**Welsh language**
No effect on the opportunities to use the Welsh language or the equal treatment of the language has been identified.

**Equalities**
No specific impacts, positive or negative, on persons who share a protected characteristic (as determined by the Equality Act 2010) have been identified.

**Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015**
Limiting the increase in the multiplier will assist all ratepayers and, as such, will help to contribute to the achievement of the wellbeing goals of a prosperous and a more equal Wales.

**Impact on voluntary sector**
Limiting the increase in the multiplier will benefit all ratepayers including those operating in the voluntary, charitable and not-for-profit sectors.

**Competition Assessment**
A competition filter test has been applied to the Order.  As the change benefits all ratepayers, no effect on competition within Wales is indicated.  Limiting the multiplier means that ratepayers in Wales are not placed at a disadvantage compared to other parts of the UK.

**Post implementation review**
The Welsh Government will monitor the impact of the change on the non-domestic rates pool.

Archwilio Cymru
Audit Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Y Senedd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

**Reference:** AC/221/caf
**Date issued:** 18 Tachwedd 2020

Annwyl Llŷr

## Cod Ymarfer Archwilio

Mae'n ofynnol i mi, dan adran 10 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, baratoi a chyhoeddi Cod Ymarfer Archwilio sy'n rhagnodi'r ffordd y mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol i gael eu cyflawni. Mae'n rhaid i'r Cod ymgorffori'r hyn sy'n ymddangos i mi yr arfer proffesiynol gorau o ran y safonau, y gweithdrefnau a'r technegau sydd i gael eu mabwysiadu wrth gyflawni fy swyddogaethau.

Fel y byddwch yn cofio, eglurodd Huw Vaughan Thomas, fy rhagflaenydd, yn ystod ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ar ei archwiliad o gyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru 2015-16, ei fod wedi rhoi trefniadau yn eu lle i adolygu'r Cod yn flynyddol. Rwyf wedi cadw'r trefniadau hynny.

Yn dilyn cwblhau'r adolygiad eleni, cyhoeddais God diwygiedig ar 30 Hydref 2020, sydd ar gael drwy'r ddolen gyswllt hon: **Cod Ymarfer Archwilio.**

Roedd y prif newidiadau i'r Cod fel a ganlyn:

- diweddaru rhai cyfeiriadau deddfwriaethol, a'r mwyaf nodedig o'r rhain oedd newid cyfeiriadau o fod at y Cynulliad i fod at y Senedd;
- newid y rhagair gan Huw Vaughan Thomas am un gennyf fi fy hun; ac
- ailfrandio'r Cod fel dogfen Archwilio Cymru.

Gan nad oes unrhyw newidiadau o sylwedd i'r arweiniad yn y Cod nid oedd angen ymgynghori ynglŷn â'r newidiadau hynny.

Byddaf yn parhau i adolygu fy Nghod yn flynyddol ac yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf ichi wrth i newidiadau gael eu gwneud.

Yn gywir

**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

cc Mr Nick Ramsay AS, Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-JH-3575-20

Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon,
Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau,
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad,
Pwyllgor Cyllid, a
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

25 Tachwedd 2020

Cadeirydd Annwyl,

Yn ei Ddatganiad Llafar i'r Cyfarfod Llawn ar 15 Gorffennaf, cyhoeddodd y Prif Weinidog fod y Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd ("y Ddyletswydd") yn un o bum maes a gadarnhawyd yn y Rhaglen Ddeddfwriaethol i'w chyflawni cyn diwedd y tymor Senedd hwn. Yn dilyn hynny ar 16 Gorffennaf, cadarnheais trwy Ddatganiad Ysgrifenedig y byddai'r Ddyletswydd yn dod i rym ar 31 Mawrth 2021.

Gan gychwyn Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y Ddyletswydd, bydd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodedig, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, wrth wneud penderfyniadau strategol megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, ystyried sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae cwmpas pwerau Gweinidog Cymru i ddal cyrff cyhoeddus Cymru yn ôl y Ddyletswydd yn cael ei bennu gan 'brawf' yn adran 2 (6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yn seiliedig ar hyn, rwy'n rhagweld y bydd y cyrff cyhoeddus Cymreig canlynol yn cael eu nodi yn y Rheoliadau:

- Gweinidogion Cymru;
- Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig;
- Awdurdodau lleol;
- Awdurdodau Tân ac Achub;
- Awdurdod Cyllid Cymru; a
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n cydnabod y pwysau sydd ar amserlenni Pwyllgor y Senedd rhwng nawr a diwedd tymor y Senedd hon. Rwy'n ysgrifennu felly i gynnig cyfle i'ch Pwyllgor, fel un a fydd â diddordeb yn y Ddyletswydd, gael sesiwn friffio dechnegol o fy mlaen i osod y Rheoliadau yn y Senedd ar 9 Chwefror 2021. Byddai hyn yn rhoi cyfle i chi ac Aelodau'r Pwyllgor ddeall y fframwaith deddfwriaethol a'r egwyddorion y tu ôl i'r Ddyletswydd. Pe bai hyn yn ddefnyddiol i chi, byddwn yn ddiolchgar pe gallai Clerc eich Pwyllgor gysylltu â'r Rhaglen Ddeddfwriaethol a'r Uned Lywodraethu i wneud trefniadau.

I gael rhagor o wybodaeth am y Ddyletswydd, gan gynnwys canllawiau anstatudol interim, gweler gwefan Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

# Eitem 4

**<u>Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i'r ffordd y cafodd Deddf Cymru 2014 ei rhoi ar waith</u>**

**Papur Tystiolaeth**

**Cyflwyniad**

1. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cynnal ymchwiliad i'r ffordd y cafodd Deddf Cymru 2014 ei rhoi ar waith a'r ffordd y mae'r fframwaith cyllidol yn gweithredu. Bydd yr ymchwiliad hefyd yn ystyried yr ymwybyddiaeth o ddatganoli cyllidol a threthiant ymhlith y cyhoedd yng Nghymru.

**Cyd-destun**

2. O dan Ddeddf Cymru 2014 datganolwyd trethi yng Nghymru a bu hynny'n achlysur hanesyddol yn hanes gwleidyddol Cymru. Chwe blynedd ar ôl cyflwyno'r Ddeddf, mae'r darpariaethau ariannol olaf wedi cael eu rhoi ar waith ac mae blwyddyn gyntaf gweithredu cyfraddau treth incwm Cymru wedi dod i ben. Mae'n bwysig cydnabod faint o waith sydd wedi cael ei wneud yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys:

- llunio tair Deddf: Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016; Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017; a Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017;
- creu corff casglu trethi newydd yng Nghymru, sef Awdurdod Cyllid Cymru;
- pontio'n llwyddiannus o dreth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi i'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi yng Nghymru;
- cyflwyno cyfradd treth incwm i Gymru.

3. O dan adran 23 o Ddeddf Cymru 2014, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wnaed wrth roi'r darpariaethau yn Rhan 2 ar waith, a hynny tan y bydd blwyddyn wedi mynd heibio ers rhoi'r darpariaethau olaf ar waith. Mae'r adroddiadau blynyddol hyn, a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru, yn nodi'n fanwl yr ymdrech fawr a wnaed dros y chwe blynedd diwethaf i gyflwyno'r newidiadau hyn ar amser ac o fewn y gyllideb. Ceir dolen yma i'r adroddiadau blynyddol hyn, https://llyw.cymru/trethi-cymru.

4. Mae'n bwysig cydnabod hefyd, er mwyn i'r trethi datganoledig newydd hyn gael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus, ein bod yn ddyledus iawn i'r cyfraniadau gwerthfawr gan amrywiaeth eang o randdeiliaid a sefydliadau.

5. Mae'r newidiadau hyn wedi rhoi mwy o atebolrwydd wrth wraidd setliad datganoli Cymru ac wedi sicrhau bod mwy o gyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru am y ffordd y caiff arian ei godi a'i wario yng Nghymru.

6. O ganlyniad, mae tua £5 biliwn o wariant yng Nghymru bellach wedi'i ariannu drwy drethi datganoledig a lleol – y dreth trafodiadau tir, y dreth gwarediadau tirlenwi, cyfraddau treth incwm Cymru, y dreth gyngor ac ardrethi annomestig.

7. Rydym hefyd wedi dechrau ar y cam nesaf yn y broses o ddatganoli trethi drwy ystyried trethi newydd i Gymru. Gallai hyn wneud gwahaniaeth gwirioneddol i Gymru, gan ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau polisi, boed hynny drwy newid ymddygiad, codi refeniw i fuddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus, sicrhau mwy o degwch, neu gyfuniad o bob un ohonynt.

8. Am y tro cyntaf, rydym yn fynd drwy broses Deddf Cymru i drosglwyddo'r pwerau perthnasol i Gymru mewn perthynas â threth newydd (treth ar dir sy'n addas ar gyfer datblygu, neu dreth tir gwag). Mae'r ymarfer presennol yn allweddol i brofi a oes gennym system a fydd yn cynnig cyfleoedd eraill i lunio polisi trethi er mwyn cefnogi ein hamcanion.

**Egwyddorion treth**

9. Amlinellwyd egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu, gweithredu a gweinyddu trethi i Gymru yn y Fframwaith Polisi Trethi a gyhoeddwyd yn 2017,

10. sef y dylai trethi Cymru wneud y canlynol:

- i) Codi refeniw i gyllido gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl;
- ii) Cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru, yn enwedig cefnogi twf a swyddi;
- iii) Bod yn glir, yn sefydlog ac yn syml;
- iv) Cael eu datblygu drwy gydweithio a chyfranogi;
- v) Cyfrannu'n uniongyrchol at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru sy'n fwy cyfartal.

11. Mae ein strategaeth dreth, sydd wedi'i harwain gan yr egwyddorion hyn, wedi sicrhau ein bod wedi datblygu trethi sy'n deg i'r busnesau a'r unigolion sy'n eu talu. sy'n syml, gyda rheolau clir, sy'n anelu at leihau costau cydymffurfio a gweinyddu; sy'n cefnogi twf a swyddi a fydd, yn ei dro, yn helpu i drechu tlodi; ac sy'n cynnig sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr.

12. Yn y dyfodol, bydd y cydbwysedd rhwng buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus, cystadleurwydd economi Cymru a'r effaith ar drethdalwyr yn parhau i fod wrth wraidd penderfyniadau, yn ogystal ag ystyriaeth o'r ffordd orau o ddefnyddio unrhyw dreth newydd neu ddatganoli trethi ymhellach fel modd i hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb, gan ein galluogi i fynd i'r afael â materion cymdeithasol, a sicrhau cyfiawnder a sicrwydd economaidd.

**Gweinyddu trethi datganoledig**

13. Arweiniodd y mesurau yn Neddf Cymru 2014 sy'n caniatáu datblygu trethi datganoledig at baratoi tair Deddf Trethi i Gymru, sef Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016; Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi

Datganoledig (Cymru) 2017; a Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017.

*14.* Ar 1 Ebrill 2018, daeth y tair deddf hyn i rym. Sefydlwyd Bwrdd Rhaglen Datganoli Trethi, a arweiniwyd gan CThEM. Ei ddiben oedd goruchwylio'r broses o bontio o dreth dir y dreth stamp i'r dreth trafodiadau tir, ac o'r dreth dirlenwi i'r dreth gwarediadau tirlenwi Goruchwyliodd y Bwrdd hefyd brosiect cyfraddau treth incwm Cymru – gweler paragraff 33). Cynigiodd Bwrdd y Rhaglen Datganoli Trethi ffordd o ddatrys heriau ar lefel prosiect. Mae'r bwrdd hwn bellach wedi'i gau'n ffurfiol.

*Treth Trafodiadau Tir*

15. Cytunwyd ar y rheoliadau i ddwyn cyfraddau a bandiau'r dreth trafodiadau tir i rym gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 30 Ionawr 2018. Roedd y cyfraddau a'r bandiau hyn ar waith nes iddynt gael eu diwygio ym mis Gorffennaf 2020. O dan y rheoliadau diwygiedig, cynyddwyd y trothwy ar gyfer talu'r brif gyfradd o £180,000 i £250,000.

*Treth Gwarediadau Tirlenwi*

16. Daeth cyfraddau cychwynnol y dreth gwarediadau tirlenwi i rym ar 24 Ionawr 2018. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gynyddu cyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi yn unol â chwyddiant, er mwyn bod yn gyson â'r ffordd y mae Llywodraeth y DU yn ymdrin â chyfraddau'r dreth dirlenwi.

*17.* Cymeradwywyd y rheoliadau a fyddai'n pennu cyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi ar gyfer 2020-21 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2020.

*Awdurdod Cyllid Cymru*

18. Yn dilyn Deddf Cymru 2014, sefydlodd Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 Awdurdod Cyllid Cymru (yr Awdurdod) i weinyddu'r ddwy dreth sydd wedi'u datganoli'n llawn i Gymru – y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi.

19. Sefydlwyd yr Awdurdod yn 2017 fel adran anweinidogol yn Llywodraeth Cymru. Dechreuodd gasglu'r ddwy dreth ddatganoledig o fis Ebrill 2018. Mae cytundeb fframwaith rhwng Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod yn nodi eu perthynas a'u priod rolau a chyfrifoldebau.

20. Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i gyflwyno system drethi deg i Gymru drwy'r hyn a elwir yn 'Ein Dull o Weithredu' – ffordd Gymreig o drethu. Mae hwn yn ddull a arweinir gan bartneriaeth, sy'n golygu gweithio gyda threthdalwyr, eu cynrychiolwyr, a sefydliadau partner, ac a ysbrydolir gan dri therm Cymraeg: Cydweithio, Cadarnhau, Cywiro:

- Mae cydweithio yn golygu gweithio gyda'n gilydd ac mae'n dwyn yr ystyr gweithio tuag at nod cyffredin.

- Mae cadarnhau yn awgrymu ansawdd cadarn, solet y gellir dibynnu arno.  Mae hyn yn ymwneud â rhoi sicrwydd, bod yn gywir a chryfhau ymddiriedaeth.
- Mae cywiro yn golygu dychwelyd i'r gwirionedd ac mae'n ymwneud â'r ffordd rydym yn gweithio gyda chi i ymdrin â gwallau neu bryderon.

21. Drwy'r dull hwn, a ysbrydolwyd gan Siarter yr Awdurdod, sy'n cynnwys wyth gwerth, credo a safon a rennir,  mae'r Awdurdod yn rhannu ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth â chwsmeriaid er mwyn eu galluogi i dalu'r swm cywir o dreth ar yr adeg gywir. Mae prosesau ar waith i'r rhai a fydd yn ceisio osgoi talu'r swm cywir o dreth yn fwriadol.

22. Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu dull digidol yn gyntaf mewn perthynas â'i wasanaethau o'r cychwyn cyntaf. Ochr yn ochr â chymorth gwasanaeth cwsmeriaid penodol, mae hyn yn ei gwneud yn hawdd i gwsmeriaid ffeilio eu ffurflenni a thalu eu trethi. Cynhelir y mwyafrif helaeth o drafodiadau'r Awdurdod yn ddigidol, ond mae opsiynau papur ar gael i'r rhai na allant ffeilio na thalu'n ddigidol.

23. Nododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ei disgwyliadau ar gyfer y ffordd y byddai'r Awdurdod yn gweithredu rhwng 2019-20 a 2021-22 mewn llythyr cylch gwaith. Nododd y llythyr y blaenoriaethau canlynol:

- Datblygiad parhaus yr Awdurdod – adeiladu ar gyflawniadau'r Awdurdod ac edrych ymlaen at y tymor hwy;

- Cyflawni canlyniadau – datblygu cyfres o fesurau perfformiad gweithredol er mwyn nodi pa mor effeithiol y mae'r system drethi yn gweithio yng Nghymru;

- Gwarediadau Anawdurdodedig – y dylai'r Awdurdod dargedu adnoddau at achosion sy'n mynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol ac sy'n rhoi busnesau tirlenwi cyfreithlon o dan anfantais.

24. Mae cynllun corfforaethol tair blynedd cyntaf yr Awdurdod ar gyfer 2019-22, y cytunwyd arno gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ac a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019, yn adlewyrchu'r disgwyliadau hyn sy'n ategu ei gilydd, a'r cyfan wedi'i anelu at helpu trethdalwyr i dalu'r swm cywir o dreth ar yr adeg gywir.

25. Gosodir y cynllun yng nghyd-destun diben y sefydliad:

i. cynllunio a darparu gwasanaethau cyllid cenedlaethol i Gymru;
ii. arwain y gwaith o ddefnyddio data trethdalwyr Cymru yn well dros Gymru.

26. Mae amcanion strategol presennol yr Awdurdod fel a ganlyn:

a. Gwneud pethau'n haws;
b. Sicrhau ein bod yn deg;
c. Bod yn fwy effeithlon;

d. Ehangu ein gallu.

Yn ogystal â dau amcan arall sydd â'r nod o fanteisio i'r eithaf ar rôl yr Awdurdod:

e. Data – Gwneud y defnydd gorau posibl o asedau data er budd Cymru.

f. Cynllunio – Defnydddio profiad ac arbenigedd i gefnogi'r broses o gynllunio gwasanaethau cyllid Cymru.

27. Eleni, mae'r Awdurdod wedi arwain y gwaith o ystyried sut i wneud y defnydd gorau o ddata trethdalwyr Cymru. Mae'n rhannu gwybodaeth am y math o ddata y mae'r Awdurdod bellach yn eu dal ar y trethi datganoledig â Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol ond mae meysydd o ddiddordeb cyffredin a chyfleoedd posibl i gydweithio i wella gwasanaethau wedi'u nodi. Mae diogelwch data trethdalwyr bob amser yn hollbwysig i'r gwaith hwn.

28. O dan amcan Cynllunio, mae Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod wedi cydweithio i ddwyn amrywiaeth o sgiliau ac arbenigedd ynghyd, er mwyn cefnogi syniadau cynnar ar y gwaith o gynllunio unrhyw wasanaethau cyllid newydd posibl. Mae'r ffordd hon o weithio hefyd wedi bod o fudd o ran newidiadau i'r ddwy dreth bresennol.

29. Mae cynllun corfforaethol 2019-22 yn cynnwys set o fesurau perfformiad. Gan fod dull gweithredu'r Awdurdod yn wahanol, mae'r naw mesur perfformiad hefyd yn wahanol, gan adlewyrchu'r ffordd newydd Gymreig o drethu. Pennwyd y targedau ar gyfer diwedd cyfnod y cynllun corfforaethol (2021-22). Bydd yr Awdurdod yn cyflwyno adroddiad ar y mesurau hyn am y tro cyntaf yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019-20, y bwriedir iddo gael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2020, gan ddefnyddio enghreifftiau ar ffurf naratif a data.

30. Mae cyfrifon blynyddol diweddaraf yr Awdurdod, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020, yn cofnodi i'r Awdurdod godi £260 miliwn drwy refeniw'r dreth treth trafodiadau tir a £37 miliwn drwy refeniw'r dreth treth gwarediadau tirlenwi yn ystod 2019-20. Prosesodd yr Awdurdod ychydig dros 61,000 o ffurflenni'r dreth trafodiadau tir, sy'n debyg i'r cyfnod blaenorol.

*31.* Mae'r Awdurdod wedi wynebu heriau gweithredol penodol o ganlyniad i'r llifogydd yn ei bencadlys yn Nhrefforest ym mis Chwefror ac wedyn effaith pandemig COVID-19. Mae'r system gwmwl a'r prif ffocws ar ddarparu ei wasanaethau'n ddigidol wedi sicrhau bod yr Awdurdod wedi llwyddo i barhau i ddarparu gwasanaethau gyda chyn lleied o darfu â phosibl.

*Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC)*

32. Mae adrannau 8 i 11 o Ddeddf Cymru 2014 yn darparu ar gyfer cyfraddau treth incwm sylfaenol, uwch ac ychwanegol yng Nghymru i'w pennu gan y Senedd drwy benderfyniad, ac yn rhoi diffiniad pellach o "drethdalwyr Cymru".

33. Pan gafodd Deddf Cymru 2014 ei deddfu'n wreiddiol, roedd yn darparu ar gyfer cynnal refferendwm yng Nghymru ynghylch p'un a ddylai'r darpariaethau treth incwm a nodwyd yn y Ddeddf ddod i rym ai peidio. Yn dilyn hynny, cafodd y

darpariaethau hyn mewn perthynas â refferendwm eu dileu gan adran 17 o Ddeddf Cymru 2017.

34. Cadarnhaodd fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru, y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 2016, y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno CTIC yn ystod 2019-20, a hynny'n amodol ar ddileu'r gofyniad am refferendwm.

35. Cyflwynwyd CTIC ar 6 Ebrill 2019. Ar gyfer incwm nad yw'n deillio o gynilion neu incwm difidend, penderfynodd Llywodraeth y DU dynnu 10c oddi ar y tair cyfradd treth incwm – cyfraddau sylfaenol, uwch ac ychwanegol – a delir gan drethdalwyr Cymru. Ar 15 Ionawr 2019, cytunodd y Senedd â chynnig Llywodraeth Cymru i bennu cyfraddau treth incwm ar gyfer 2019-20 ar 10c, er mwyn sicrhau bod y cyfraddau a delir gan drethdalwyr Cymru yn aros yr un fath â'r rhai a delir gan drethdalwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

36. Mae CThEM wedi cadw'r cyfrifoldeb am gasglu a rheoli CTIC. Yn nhermau cyfreithiol a chymhwysedd, erys y dreth hon yn un o drethi'r DU, felly hefyd y trefniadau cysylltiedig ar gyfer lwfansau a rhyddhadau (gan gynnwys y lwfans personol), a'r trothwyon a'r bandiau treth. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i gadw'r refeniw sy'n deillio o dreth incwm ar gynilion ac incwm difidend gan drethdalwyr yng Nghymru.

37. Cafodd y gwaith paratoi ar gyfer cyflwyno CTIC ei oruchwylio gan Fwrdd Prosiect trawslywodraethol Cyfraddau Treth Incwm Cymru, gan weithredu o dan Fwrdd y Rhaglen Datganoli Trethi. Roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, CThEM a Thrysorlys EM.

38. Gan fod y prosiect i roi cyfraddau treth incwm Cymru ar waith wedi'i gwblhau i raddau helaeth a bod CTIC wedi dod yn weithrediad Busnes Fel Arfer, mae Bwrdd y prosiect wedi cael ei droi'n Fwrdd Treth Incwm Cymru a fydd yn goruchwylio'r trefniadau Busnes Fel Arfer.

39. Caiff y camau gweithredu sy'n weddill mewn perthynas â pharatoi datganiad y Crynodeb Blynyddol o Drethi a'r broses o gau'r prosiect yn ffurfiol eu rheoli drwy'r strwythur Bwrdd newydd. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob chwarter i fonitro cynnydd ac fe'i cadeirir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a CThEM.

40. Bu Swyddfa Archwilio Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn adolygu'r gwaith paratoi yn ystod y misoedd cyn cyflwyno'r cyfraddau a daethpwyd i'r casgliad bod gan CThEM drefniadau cyflwyno a llywodraethu priodol i roi CTIC ar waith.

41. Caiff alldro blwyddyn gyntaf datganoli treth incwm (2019-20) ei gyhoeddi gan CThEM yn ystod haf 2021.

42. Mae cynnal cywirdeb y boblogaeth o drethdalwyr Cymreig yn hanfodol i'r gwaith o weinyddu CTIC. Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Llywodraeth Cymru a CThEM yn cynnwys mesurau perfformiad a oedd â'r nod o sicrhau ffocws parhaus ar nodi a chynnal cofnod cywir a chadarn o'r boblogaeth o

drethdalwyr Cymreig. Mae'r CLG yn cynnwys cylch rheolaidd o weithgarwch, gan gynnwys sganiau data CThEM, er mwyn sicrhau cywirdeb y data. Un o'r gofynion allweddol yw bod CThEM yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar y ffordd y mae wedi darparu'r gwasanaethau y cytunwyd arnynt.

43. Caiff perfformiad CTIC ei archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, yng nghyd-destun paratoi cyfrifon Cronfa Gyfunol Cymru, a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a hynny er mwyn sicrhau digonolrwydd rheolau a gweithdrefnau CThEM a roddwyd ar waith, o ganlyniad i ddarpariaethau cyfraddau Cymru, er mwyn sicrhau y caiff treth incwm a godir ar gyfraddau a bennir o dan y darpariaethau hynny ei hasesu a'i chasglu'n briodol.

44. Ar ôl i gyfrifon CThEM gael eu harchwilio, bydd adroddiad cryno sy'n ymdrin â'r holl faterion sy'n ymwneud â CTIC ar gael i'r Senedd. Ar hyn o bryd, bwriedir ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2021.

**Dull trethu yng Nghymru**

45. Mae ein cynllun gwaith trethi blynyddol yn nodi sut rydym yn mynd ati i ddatblygu polisi trethi yng Nghymru. Mae'r fersiwn ddiweddaraf a gyhoeddwyd yn ymwneud â 2019. Oherwydd effaith pandemig COVID-19, bu oedi wrth baratoi Cynllun Gwaith 2020.

46. Gellir trefnu'r materion yr eir i'r afael â nhw drwy'r cynlluniau gwaith trethi blynyddol yn dair thema fel a ganlyn:

- Datblygu polisi trethi mor deg â phosibl, sy'n gyson â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru, ac ar y cyd â rhanddeiliaid.

- Gweithredu trethi Cymreig yng nghyd-destun y DU.

- Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o drethi yng Nghymru.

47. Bydd y cydbwysedd rhwng buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus, cystadleurwydd economi Cymru a'r effaith ar drethdalwyr wrth wraidd penderfyniadau, yn union fel y defnyddiwn drethi fel ffordd o hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb, gan ein galluogi i fynd i'r afael â materion cymdeithasol, gan gynnwys cyfiawnder a sicrwydd economaidd.

48. Yn benodol, rydym yn parhau i ofyn am i dreth newydd (treth tir gwag) gael ei datganoli i Gymru, gan brofi'r drefn a gofynion y broses am y tro cyntaf.

**Y drefn ar gyfer datganoli pwerau**

49. Mae parhau â'r gwaith o feithrin y gallu sydd ei angen i ddatblygu a gweinyddu'r trethi datganoledig yn flaenoriaeth allweddol o hyd.

50. Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau y caiff cymhwysedd trethu mewn perthynas â thir gwag ei ddatganoli. Cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig ar 7 Medi a oedd yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i

Senedd Cymru. Hefyd, ysgrifennais at gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ar y mater hwn.

51. Ochr yn ochr â hyn, rydym wrthi'n ymgynghori ar ddeddfwriaeth bellach yng Nghymru a fydd yn sicrhau y gall Gweinidogion Cymru wneud newidiadau i “Ddeddfau Trethi Cymru” ar fyr rybudd o dan yr amgylchiadau canlynol:

- er mwyn atal achosion o osgoi neu efadu'r trethi a ddatganolwyd i Gymru;
- er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol;
- mewn sefyllfaoedd o angen eithriadol (megis mewn ymateb i benderfyniad gan dribiwnlys neu'r llysoedd uwch);
- o dan amgylchiadau penodol lle mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod gwneud hynny er budd y cyhoedd;
- yn benodol, mewn ymateb i newidiadau i bolisïau trethi gan Lywodraeth y DU.

**Fframwaith cyllidol**

52. Nodir y fframwaith sy'n sail i drefniadau cyllido Llywodraeth Cymru mewn dwy ddogfen allweddol: y datganiad am bolisi cyllido a chytundeb fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru.

53. Mae'r datganiad am bolisi cyllido yn disgrifio cyfrifiadau manwl fformiwla Barnett a'r ffordd y defnyddir y rhain i benderfynu ar newidiadau i'r grantiau bloc ar gyfer pob un o'r gweinyddiaethau datganoledig. Mae hefyd yn manylu ar nifer o elfennau eraill y trefniadau ar gyfer cyllid datganoledig. Fe'i cyhoeddwyd ddiwethaf yn 2015 ochr yn ochr â'r adolygiad cynhwysfawr o wariant yn y flwyddyn honno. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyhoeddi fersiwn wedi'i diweddaru eleni ar y cyd â'r adolygiad arfaethedig o wariant.

54. Cyhoeddwyd y cytundeb fframwaith cyllidol ym mis Rhagfyr 2016. Bu'n galluogi rhoi'r pwerau trethu a benthyca yn Neddfau Cymru 2014 a 2017 ar waith. Cyflwynodd y cytundeb newidiadau i'r ffordd y mae fformiwla Barnett yn gweithredu yng Nghymru hefyd.

55. Mae'r adrannau canlynol yn ymdrin â gwahanol agweddau ar y fframwaith cyllidol. Cyflwynwyd y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn, y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi ym mis Ebrill 2018 a chyfraddau treth incwm Cymru ym mis Ebrill 2019. Felly, mae'n dal yn rhy gynnar i asesu perfformiad y fframwaith cyllidol mewn perthynas â rhoi'r trethi datganoledig ar waith. Fodd bynnag, mae'r adrannau isod yn cynnwys rhywfaint o ystyriaeth ragarweiniol o berfformiad hyd yma.

<u>Grant bloc / fformiwla Barnett</u>

56. Ariennir Llywodraeth Cymru yn bennaf drwy un grant bloc heb ei neilltuo. Caiff newidiadau i'r grant bloc eu pennu drwy fformiwla Barnett. O dan y fformiwla hon, mae'r grant bloc mewn unrhyw flwyddyn benodol yn cyfateb i'r grant bloc yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â chyfran ar sail poblogaeth o'r newidiadau yng ngwariant Llywodraeth y DU ar feysydd sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru.

57. Ar adeg adolygiad o wariant, mae'r broses hon yn cynnwys elfen o frasamcan. I ddechrau, dim ond ar lefel adrannol y bydd cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod ar gael. Gan fod rhai o adrannau'r DU yn cwmpasu swyddogaethau sydd wedi'u datganoli a rhai heb eu datganoli, nid oes modd dweud yn union beth fydd y newid mewn cyllid ar gyfer meysydd sydd wedi'u datganoli. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, caiff y rhaniad canrannol rhwng gwariant sydd wedi'i ddatganoli a gwariant heb ei ddatganoli o flwyddyn sylfaen ei gymhwyso at y newid cyffredinol yng nghyllideb pob un o adrannau'r DU dros gyfnod yr adolygiad o wariant.

58. Cyfrifir y canrannau neu'r ffactorau cymaradwy hyn ar lefel adrannol drwy asesu a yw pob rhaglen wariant unigol wedi'i datganoli ai peidio. Caiff y gwariant ar raglenni y tybir eu bod wedi'u datganoli ei adio ar gyfer y flwyddyn sylfaen (fel arfer y flwyddyn cyn y cyfnod a gwmpesir gan yr adolygiad o wariant) a'i rannu â chyllideb gyffredinol yr adran honno. Mae Llywodraeth y DU yn cyfrifo'r ffactorau cymeradwy cyn adolygiad o wariant ac yn eu cyhoeddi yn y datganiad am bolisi cyllido. Ymgynghorir â'r gweinyddiaethau datganoledig fel rhan o'r broses hon.

59. Cyflwynodd y cytundeb fframwaith cyllidol elfen newydd i fformiwla Barnett yng Nghymru. Caiff newidiadau i grant bloc Llywodraeth Cymru eu lluosi â ffactor sy'n seiliedig ar anghenion. Bwriedir i hyn fynd i'r afael â phriodwedd cydgyfeirio fformiwla Barnett a fyddai'n golygu, heb ei diwygio, y byddai cyllid cymharol cymedrig y pen yng Nghymru yn gostwng tuag at y lefel yn Lloegr. Caiff y ffactor sy'n seiliedig ar anghenion ei bennu ar 115%, yn seiliedig ar yr amrediad o angen cymharol a argymhellwyd gan Gomisiwn Holtham a'r cyllid gwaelodol a roddwyd ar waith yn Adolygiad o Wariant 2015. Am gyfnod trosiannol, tra bod cyllid grant bloc cymharol y pen yng Nghymru uwchlaw 115% o gyllid cyfatebol y pen yn Lloegr, pennir y ffactor ar 105%.

60. Mae'r ffactor sy'n seiledig ar anghenion wedi'i gymhwyso at newidiadu yng ngrant bloc Llywodraeth Cymru ers 2018-19, o gymharu â llinell sylfaen 2017-18. Mae wedi cyflwyno cyfanswm o tua £360 miliwn o gyllid ychwanegol hyd yma,

gyda thua hanner y swm hwnnw yn ymwneud â chyllid o ganlyniad i'r coronafeirws yn 2020-21.

61. Nod Llywodraeth Cymru yn yr hirdymor yw sicrhau system gyllido sy'n seiliedig ar anghenion sy'n gweithredu'n gyson ledled y DU. Mae hyn wedi'i nodi yn y papur *Diwygio trefniadau ariannu a chodi cyllid y DU ar ôl Brexit:Sicrhau Dyfodol Cymru* a gyhoeddwyd yn 2018 ac wedi'i grynhoi yn yr adran ar gyllid yn *Diwygio ein Hundeb: Cydlywodraethu yn y DU.* Yn y cyfamser, mae ychwanegu ffactor penodol sy'n seiliedig ar anghenion yn golygu, am y tro cyntaf, fod cyllid cymharol yng Nghymru yn ystyried angen cymharol Cymru i ariannu gwasanaethau cyhoeddus datganoledig. Mae ei gyflwyno yn mynd gryn dipyn o’r ffordd i sicrhau system gyllido decach i Gymru.

Trefniadau llywodraethu a dyraniadau cyllid penodol y tu allan i fformiwla Barnett

62. Mae'r papurau y cyfeirir atynt uchod yn nodi barn Llywodraeth Cymru ar y ffordd y dylid diwygio trefniadau cyllid datganoledig. Fel y nodwyd yn y papurau hynny, gosodir y trefniadau presennol yn y datganiad am bolisi cyllido gan Lywodraeth y DU. Nid oes fawr ddim ymgynghori ystyrlon â'r llywodraethau datganoledig ac ni chytunir ar y trefniadau ar y cyd. O ganlyniad, cafwyd anghydfod ynglŷn â’r prosesau hynny. Er enghraifft, yn 2017, cododd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban ar y cyd anghytundeb yn sgil penderfyniad Llywodraeth y DU i ddyrannu £1bn ychwanegol i Ogledd Iwerddon fel rhan o'r cytundeb hyder a chyflenwi rhwng y Blaid Geidwadol a'r Blaid Undebol Ddemocrataidd ar ôl Etholiad Cyffredinol 2017.

63. Dylai'r system bresennol gael ei disodli gan drefniadau cyllido y cytunir arnynt ar y cyd sy'n seiliedig ar gydsynio a chydweithio. Dylai'r rhain weithredu ar y cyd â Llywodraeth y DU a phob un o'r gweinyddiaethau datganoledig, gan roi terfyn ar gytundebau dwyochrog er mwyn dod â chysondeb ac eglurder i’r trefniadau cyllidol o fewn y DU.

64. Fel y nodwyd yn gynharach, caiff y datganiad am bolisi cyllido ei ddiwygio cyn yr adolygiad o wariant yn y flwyddyn gyfredol. Bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori â Lywodraeth Cymru fel rhan o'r broses ond bydd yn parhau i fod yn ddogfen Llywodraeth y DU ac mae'n annhebygol y bydd yn mynd i'r afael â'r materion a godir yma.

Addasiadau i'r grant bloc

65. Mae'r cytundeb fframwaith cyllidol yn cynnwys manylion am addasiadau i'r grant bloc a gyflwynwyd ochr yn ochr â'r trethi datganoledig. Mae'r addasiadau yn lleihau grant bloc Llywodraeth Cymru, gan adlewyrchu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cael y refeniw o drethi datganoledig yn uniongyrchol yn hytrach na Thrysorlys y DU.

66. Mae'r addasiadau ar gyfer y ddwy dreth sydd wedi'u datganoli'n llawn yn cael eu cyfrifo ar sail llinell sylfaen sy'n adlewyrchu'r dreth a gasglwyd o dan dreth ragflaenol y DU yng Nghymru yn y flwyddyn cyn datganoli (2017-18). Mae'r addasiadau i'r grant bloc blynyddol yn tyfu o'r llinell sylfaen hon, gan adlewyrchu newidiadau yn nhreth gyfatebol Llywodraeth y DU yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

67. Roedd yr addasiad i'r bloc grant a gafwyd yn sgil cyflwyno cyfraddau treth incwm Cymru yn 2019-20 yn cynnwys trefniant trosiannol, gan nad oedd y sefyllfa sylfaen ar gyfer y sylfaen drethu ar adeg datganoli yn hysbys. Yn y flwyddyn gyntaf, pennwyd yr addasiad ar lefel ddisgwyliedig y refeniw a gesglir yng Nghymru o 10c o dreth ym mhob band (a gymhwyswyd at incwm nad yw'n deillio o gynilion ac incwm difidend). Gan fod Llywodraeth Cymru wedi pennu'r cyfraddau treth datganoledig ar 10c ym mhob band, roedd yr addasiad i'r grant bloc yr un peth â'r refeniw datganoledig yn 2019-20. Felly, ni chafwyd unrhyw effaith net ar gyllideb Llywodraeth Cymru o ganlyniad i ddatganoli treth incwm yn y flwyddyn gyntaf. O 2020-21 ymlaen, bydd lefel yr addasiad i'r grant bloc ar gyfer pob band yn cynyddu neu'n gostwng er mwyn adlewyrchu twf yng ngwerth 10c treth incwm (o incwm nad yw'n deillio o gynilion ac incwm difidend) yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

68. Yr enw ar yr union ffordd a ddefnyddir i gyfrifo addasiadau i'r grant bloc yw'r model cymaradwy ac fe'i hamlinellir yn fanwl yn y chytundeb fframwaith cyllidol. Mae'r addasiadau i'r grant bloc yn seiliedig ar ragolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o refeniw trethi Llywodraeth y DU.

69. O ran cyfradd treth incwm Cymru, mae'r addasiad i'r grant bloc wedi'i bennu cyn dechrau'r flwyddyn dan sylw, drwy ddefnyddio Rhagolwg Economaidd a Chyllidol yr hydref blaenorol. Caiff yr addasiadau i'r grant bloc ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn hefyd eu pennu drwy ddefnyddio Rhagolwg Economaidd a Chyllidol yr hydref blaenorol ond cânt eu diwygio yn ystod y flwyddyn drwy ddefnyddio rhagolwg yr hydref canlynol.

70. Ar gyfer 2020-21, pennwyd pob addasiad i'r grant bloc ar gyfer pob treth drwy ddefnyddio Rhagolwg Economaidd a Chyllidol Mawrth 2020, am nad oedd un yn ystod hydref 2019. Dangosir yr addasiadau terfynol i'r grant bloc ar gyfer 2018-19 a 2019-20 a'r addasiadau cyfredol i'r grant bloc ar gyfer 2020-21 yn nhabl 1.

**Tabl 1:Addasiadau i'r Grant Bloc**

| | | | £ million |
|---|---|---|---|
| | 2018-19[1] | 2019-20[2] | 2020-21[3] |
| Land Transaction Tax | 241.8 | 234.8 | 260.9 |
| Landfill Disposals Tax | 26.5 | 24.9 | 24.7 |
| Welsh Rates of Income Tax | | 2,059.4 | 2,156.3 |
| Of which: Basic rate | | 1,778.4 | 1,854.3 |
| Higher rate | | 237.3 | 248.9 |
| Additional rate | | 43.6 | 53.2 |

1. Based on OBR autumn 2018 Economic and Fiscal Outlook
2. LTT and LDT based on OBR December 2019 Welsh Taxes Outlook
   WRIT based on autumn 2018 Economic and Fiscal Outlook
3. All based on OBR March 2020 Economic and Fiscal Outlook

71. Dangosir yr alldro refeniw a rhagolygon y flwyddyn gyfredol ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn a'r rhagolygon cyfredol ar gyfer CTIC yn Nhabl 2. Bydd pandemig y coronafeirws yn effeithio ar refeniw pob treth ddatganoledig yn 2020-21. At ddibenion cyllidebol, mae refeniw CTIC yn y flwyddyn gyfredol bellach wedi'i bennu. Caiff y gwahaniaeth rhwng y ffigurau yn nhabl 2 a'r alldro terfynol ei ystyried mewn ymarfer cysoni. Caiff hyn ei gyfuno ag unrhyw newid i'r addasiad i'r grant bloc yn nhabl 1, yng ngoleuni alldro Lloegr a Gogledd Iwerddon. Bydd y wybodaeth berthnasol am alldro treth incwm ar gyfer 2020-21 ar gael yn ystod haf 2022. Yna, caiff yr addasiad cysoni cyffredinol ei gymhwyso at grant bloc Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24.

72. Caiff rhagolygon refeniw'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn yn 2020-21 eu diwygio yn yr hydref, ochr yn ochr â'r addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc.

**Tabl 2: Refeniw trethi datganoledig**

| | 2018-19[1] | 2019-20[1] | £ million 2020-21[2] |
|---|---|---|---|
| Land Transaction Tax[3] | 227.9 | 260.3 | 254.0 |
| Landfill Disposals Tax | 44.4 | 36.9 | 34.2 |
| | | | |
| Welsh Rates of Income Tax | | 2,059.4 | 2,169.7 |
| Of which: Basic rate | | 1,778.4 | 1,864.2 |
| Higher rate | | 237.3 | 251.3 |
| Additional rate | | 43.6 | 54.1 |

1. Outturn for LDT and LTT from Welsh Revenue Authority annual accounts
   WRIT for 2019-20 from OBR autumn 2018 Economic and Fiscal Outlook
2. All forecasts from OBR March 2020 Economic and Fiscal Outlook
3. 2019-20 LTT outturn affected by £28.2m tax liability associated with Transport for Wales purchase of Core Valleys Lines from Network Rail, with no overall net resource benefit to Welsh Government.

73. Gyda dim ond dwy flynedd o wybodaeth alldro ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn a dim byd eto ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru, mae'n rhy gynnar i farnu pa mor dda y mae triniaeth gyllidebol trethi datganoledig yn perfformio. Gyda'i gilydd, mae refeniw'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi dros y ddwy flynedd y mae alldro ar eu cyfer ychydig yn uwch na'r addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc. Bydd hyn yn adlewyrchu nifer o ffactorau, gan gynnwys: dewisiadau polisi trethi, perfformiad ym maes gweinyddu trethi, y farchnad eiddo ac amodau economaidd ehangach.

74. Mae'r oedi cyn bod gwybodaeth alldro ar gael ar gyfer refeniw treth incwm yn golygu nad oes modd asesu'r elfen hon o'r fframwaith cyllidol yn briodol i Gymru ar hyn o bryd. Gall yr oedi mawr cyn bod addasiadau cysoni'n cael eu cymhwyso, yn amlwg, arwain at broblemau cyllidebol yn y dyfodol, fel y gwelwyd yn ddiweddar yn yr Alban.

75. Mae'n debygol y bydd y gwahaniaethau rhwng datganoli treth incwm yng Nghymru a'r Alban yn golygu y bydd problemau cysoni yn llai difrifol yng Nghymru. Yn yr Alban, mae'r holl dreth incwm ar incwm nad yw'n deillio o gynilion ac incwm difidend wedi'i ddatganoli. Gyda dim ond 10c o bob cyfradd treth wedi'i ddatganoli yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn llai agored i'r risgiau sy'n gysylltiedig â thwf refeniw treth incwm gwahaniaethol. Dylai'r addasiadau ar wahân i'r grant bloc ar gyfer pob band treth incwm yng Nghymru hefyd helpu i leihau'r risg hon, drwy bwysoli'r addasiad cyffredinol i'r grant bloc mewn ffordd sy'n debycach i sylfaen treth incwm Cymru. Un addasiad i'r grant bloc ar gyfer treth incwm sydd gan yr Alban.

76. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro’r trefniadau'n ofalus ar gyfer pob treth ddatganoledig a bydd yn codi unrhyw bryderon gyda Llywodraeth y DU.

Adnoddau rheoli'r gyllideb

77. Roedd y cytundeb fframwaith cyllidol yn cynnwys creu Cronfa Wrth Gefn i Gymru. Gall Llywodraeth Cymru gadw refeniw dros ben a chyllid grant bloc nas defnyddiwyd yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru, hyd at derfyn o £350m. Dechreuodd y Gronfa Wrth Gefn weithredu ar ddiwedd 2017-18, ac roedd Llywodraeth Cymru yn gallu cadw tanwariant i gefnogi'r broses o ddatganoli trethi a rheoli pwysau eraill ar y gyllideb yn y flwyddyn ganlynol. Gall hawlio hyd at £125m o gyllid adnoddau a £50m o gyllid cyfalaf mewn unrhyw flwyddyn benodol.

78. Dengys tabl 3 sefyllfa gychwynnol y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer pob un o'r blynyddoedd y mae trethi datganoledig wedi bod yn weithredol. Mae'r terfyn cyffredinol o £350m ar y Gronfa Wrth Gefn a'r terfyn hawlio blynyddol, ynghyd â newidiadau hwyr i grant bloc Llywodraeth Cymru drwy broses Amcangyfrifon Atodol y DU, yn golygu bod y broses o reoli sefyllfa diwedd blwyddyn Llywodraeth Cymru wedi bod yn heriol iawn dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Byddai'r rhan hon o'r broses gyllidebol yn haws ac yn fwy effeithiol pe bai'r terfynau'n cael eu cynyddu.

**Tabl 3:Sefyllfa Cronfa Wrth Gefn Cymru ar ddechrau pob blwyddyn**

| | | | £ million |
|---|---|---|---|
| | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21[1] |
| Resource | 270 | 304 | 232 |
| Traditional Capital | 53 | 8 | 39 |
| Financial Transactions Capital | 1 | 14 | 66 |
| **Total** | **325** | **326** | **337** |

1. Provisional

79. Gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £200m bob blwyddyn at ddibenion adnoddau, o fewn terfyn cyffredinol o £500m, os bydd refeniw trethi yn is na'r rhagolwg. Mae'n rhaid ad-dalu benthyciadau o fewn 5 mlynedd.

80. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r cyfleuster hwn eto. Mae Llywodraeth yr Alban wedi defnyddio'i chyfleuster cyfatebol ar gyfer taliad cysoni treth incwm 2017-18 yn y flwyddyn gyfredol.

81. O ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â therfynau cyfredol y Gronfa Wrth Gefn a nodir uchod, mae pryderon penodol yn codi na fydd yr adnoddau rheoli cyllideb sydd ar gael yn ddigon i ymdrin â'r ansicrwydd ychwanegol sy'n gysylltiedig â phandemig y coronafeirws yn y flwyddyn gyfredol, ac o bosibl yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael £4bn ychwanegol i ariannu ei hymateb i'r pandemig eleni. Mae graddfa'r cyllid ychwanegol hwn yn ystod y flwyddyn ynghyd â tharfu ar raglenni gwariant presennol a'r effaith bosibl ar refeniw trethi yn golygu bod y Llywodraeth yn wynebu lefelau o ansicrwydd na welwyd eu tebyg o'r blaen.

82. Mae trafodaethau â Llywodraeth y DU wedi arwain at warantu £4bn o gyllid ychwanegol, cyn y cyhoeddiadau ar wariant cysylltiedig yn Lloegr, sy'n rhoi rhywfaint o sicrwydd o ran un agwedd ar reoli'r gyllideb yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd newidiadau sylweddol o hyd yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Fel y nodwyd yn y cytundeb fframwaith cyllidol, gall Gweinidogion Cymru ofyn am hyblygrwydd ychwanegol o dan amgylchiadau eithriadol. Mae'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn gyfredol yn eithriadol ac mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r achos dros hyblygrwydd ychwanegol y flwyddyn hon, yn ogystal â newidiadau i'r terfynau yn y tymor hwy.

<u>Benthyca Cyfalaf</u>

83. Gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £150m y flwyddyn at ddibenion cyfalaf, gyda therfyn cyffredinol o £1bn. Benthycodd £65m yn 2018-19 ond nid oedd angen y cyfleuster yn 2019-20 am fod Llywodraeth y DU wedi darparu gwariant cyfalaf ychwanegol yn ystod y flwyddyn, ac roedd ei ddefnyddio ar fyr rybudd yn golygu nad oedd angen y benthyciad cyfalaf arfaethedig ar gyfer y flwyddyn honno mwyach. Mae cynlluniau cyllideb 2020-21 yn tybio £125m o fenthyca cyfalaf.

84. Bydd gwariant cyfalaf yn elfen hollbwysig o gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer adfer yn sgil pandemig y coronafeirws. Ni wyddom eto pa lefel o gyllid cyfalaf a ddaw drwy'r grant bloc y flwyddyn nesaf a thu hwnt. Fodd bynnag, mae'n ddigon posibl y bydd angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno'r achos dros derfynau benthyca cyfalaf uwch er mwyn cefnogi'r adferiad economaidd yn effeithiol.

<u>Effeithiau canlyniadol</u>

85. Cytunodd Llywodraeth Cymru ar y ffordd y dylid trin effeithiau canlyniadol sy'n ymwneud â threthi a'r trefniadau i ymdrin â nhw fel rhan o'r cytundeb fframwaith cyllidol cyffredinol. Caiff effeithiau canlyniadol mwy cyffredinol eu trin yn y datganiad am bolisi cyllido ac maent wedi bod yn destun anghytundeb yn y gorffennol. Dim ond trafod y trefniadau yn y cytundeb fframwaith cyllidol a wna’r adran hon.

86. Un o newidiadau polisi Llywodraeth y DU sydd fwyaf tebygol o effeithio ar refeniw Llywodraeth Cymru fyddai newidiadau i lwfans personol treth incwm. Mae'r dosbarthiad incwm wedi ei grynhoi'n fwy ar y pen isaf yng Nghymru nag yn Lloegr. Mae hyn yn golygu bod newidiadau i'r lwfans personol yn cael effaith gymharol fwy ar refeniw yng Nghymru. Mae'r trefniadau ar gyfer addasiadau i'r grant bloc yn fodd i ymdrin â'r effaith ganlyniadol benodol hon. Fel y nodir uchod, mae'r addasiadau ar wahân i'r grant bloc ar gyfer pob band treth yn golygu bod yr addasiad cyfun i'r grant bloc yn ymddwyn yn debycach i sylfaen drethu Cymru nag y byddai'n digwydd pe bai un addasiad heb ei bwysoli i'r grant bloc. O ganlyniad, mae effaith newidiadau i'r lwfans personol ar yr addasiadau ar wahân i'r grant bloc yn debycach i refeniw trethi Cymru, sy'n helpu i ystyried yr effaith anghymesur ar refeniw.

87. Ni fu achos penodol eto o gymhwyso'r trefniadau eraill i ymdrin ag effeithiau calyniadol a nodwyd yn y cytundeb fframwaith cyllidol.

Cymariaethau rhyngwladol

88. Mae'r papur *Diwygio trefniadau ariannu a chodi cyllid y DU ar ôl Brexit:Sicrhau Dyfodol Cymru* y cyfeiriwyd ato'n gynharach yn cynnwys rhai enghreifftiau o ddatganoli cyllidol mewn gwledydd eraill yn Atodiad 1.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Eitem 7

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE-400-20

Llyr Gruffydd MS,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1NA

18 Tachwedd 2020

Annwyl Llyr,

Cafodd Cyfrifon Blynyddol Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 eu cyhoeddi ar 2 Tachwedd 2020. Yn unol â'm hymrwymiad i arferion da a thryloywder, rwyf bellach yn gallu rhoi adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid ar alldro terfynol 2019-20 ar gyfer Llywodraeth Cymru yn erbyn cynlluniau gwario a gymeradwywyd yn yr Ail Gyllideb Atodol 2019-20.

Mae'r adroddiad a'r atodiadau yn darparu crynodeb o wariant yn ôl portffolio o fewn cyfansymiau rheoli'r Trysorlys, amrywiadau o'u cymharu â'r gyllideb, esboniad o'r amrywiadau sylweddol a manylion y symiau i'w cario ymlaen yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru. Mae'r manylion ychwanegol a ddarperir yn yr adroddiad yn mynd i'r afael ag argymhelliad rhif 4 yn eich adroddiad “Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2019-2020” a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020.

Rwyf yn falch o drefnu bod y Cyfarwyddwr Cyllid a'i staff ar gael i drafod manylion yr adroddiad os byddai hynny o gymorth.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llywodraeth Cymru

# Adroddiad ar Alldro 2019-20

Adroddiad gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd i Bwyllgor Cyllid y Senedd ar alldro archwiliedig Llywodraeth Cymru 2019-20 wedi'i osod yn erbyn y gwariant arfaethedig yn Ail Gyllideb Atodol 2019-20. Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020.

## Cynnwys

1. Cyflwyniad ........................................................................................ 2

2. Alldro Prif Grwpiau Gwariant 2019-20 .................................................. 4

3. Cario symiau ymlaen o fewn Cronfa Wrth Gefn Cymru....................... 12

ATODIAD 1: Alldro DEL Adnoddau yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb ... 15

ATODIAD 2: Alldro DEL Cyfalaf yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb ........ 22

ATODIAD 3: Alldro Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb ........................................................ 26

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â'r protocol a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 21 Mawrth 2012 ynghylch newidiadau i gynnig y Gyllideb a'u heffeithiau ar gylch y Gyllideb yn ystod y flwyddyn.

**1.2** Fel rhan o'r protocol, cytunodd Llywodraeth Cymru ar y canlynol:

*Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio mewn modd agored a thryloyw, bydd yn darparu adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid ar y canlyniadau terfynol. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys cymhariaeth â'r cynlluniau gwario a nodwyd yng Nghyllideb Atodol olaf y flwyddyn ac eglurhad o'r amrywiadau sylweddol.*

**1.3** Cafodd yr ymrwymiad hwn ei ailddatgan yn y protocol diwygiedig a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 21 Mehefin 2017.

**1.4** Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â'r ymrwymiad hwnnw ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20.

**1.5** Cymeradwywyd Ail Gyllideb Atodol 2019-20 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 3 Mawrth 2020. Mae'r alldro terfynol yn dilyn cyhoeddi Cyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru ar 2 Tachwedd 2020. Gweler y ddolen ganlynol: https://llyw.cymru/cyfrifon-cyfunol-blynyddol-llywodraeth-cymru-2019-2020?_ga=2.154060472.1226894170.1604319335-1879009853.1543503049

**1.6** Ni wnaed unrhyw ddyraniadau cyllidebol o gronfeydd wrth gefn rhwng dyddiad cyhoeddi'r gyllideb a diwedd y flwyddyn ariannol.

**1.7** Llunnir yr adroddiad ar yr alldro ar sail strwythur cyllideb Llywodraeth Cymru a oedd mewn grym ar ddiwedd y flwyddyn ac a gaiff ei gofnodi yn y cyfrifon blynyddol.

## 2. Alldro Prif Grwpiau Gwariant[1] 2019-20

**2.1** Cyflwynwyd Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru gerbron y Cynulliad ar 2 Tachwedd 2020. Mae'r cyfrifon archwiliedig yn cynnwys Crynodeb o Alldro Adnoddau yn erbyn y cyfansymiau rheoli a gymeradwywyd yng nghynnig Ail Gyllideb Atodol 2019-20.

**2.2** Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion alldro terfynol yn erbyn y rheolaethau lefel is sy'n cael eu gweithredu a'u gorfodi gan Drysorlys EM. Adroddir ar y cyllidebau gweinyddol hyn yn y dogfennau a'r tablau a oedd yn cyd-fynd â'r Ail Gyllideb Atodol.

**2.3** Yn unol â blynyddoedd blaenorol, mae'r adroddiad hefyd yn darparu esboniadau o *bob* gorwariant ynghyd ag unrhyw danwariant o fwy na 1% o gyllidebau lefel MEG ym mhob un o'r cyfansymiau rheoli (yn ddarostyngedig i lefel de minimis o £0.5m).

**2.4** Am y tro cyntaf, er mwyn sicrhau mwy o dryloywder, dadansoddwyd yr alldro ymhellach i'r lefel a gyhoeddwyd yn Ail Gyllideb Atodol 2019-20. Mae'r tablau cyllidebol a gyhoeddwyd yn dangos dadansoddiad i Linellau Gwariant yn y Gyllideb. Mae'r alldro yn erbyn y gyllideb bellach yn cael ei ddarparu ar y sail hon yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn.

### Alldro DEL Adnoddau (Refeniw)

#### *DEL Adnoddau Cyllidol[2]*

**2.5** Arweiniodd yr alldro Adnoddau Cyllidol ar gyfer y flwyddyn at orwariant o £48.3m sy'n cyfateb i amrywiant o 0.3% yn y gyllideb.

[1] Cyllideb lefel uwch sy'n cynrychioli portffolio gweinidogol neu gyllidebau gweinyddu canolog yw Prif Grŵp Gwariant neu MEG.
[2] Mae DEL Adnoddau Cyllidol yn gyfanswm rheoli a bennir gan Drysorlys EM ac yn is-set o Adnoddau DEL ac fe'i gelwir yn refeniw hefyd.

**2.6** Effeithiodd ymateb Llywodraeth Cymru i'r llifogydd a gafwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar y gwariant yn y dosbarthiad hwn o'r gyllideb. At hynny, cafwyd rhywfaint o ymateb y Llywodraeth i'r pandemig ym mis olaf y flwyddyn. O ganlyniad, cofnododd tri MEG orwariannau.

**2.7** Mae Tabl 1 yn nodi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Mae esboniadau o'r amrywiannau fel y'u pennir ym mharagraff 2.3 yn dilyn.

| **Tabl 1: Alldro Adnoddau Cyllidol yn ôl MEG** | **Cyllideb £000** | **Alldro £000** | **Tanwariant /Gorwariant (-) £000** | **%** |
|---|---|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 7,844,903 | 7,849,996 | -5,093 | -0.06 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 3,845,051 | 3,849,621 | -4,570 | -0.12 |
| Economi a Thrafnidiaeth | 527,025 | 568,025 | -41,000 | -7.8 |
| Addysg | 1,425,085 | 1,424,971 | 114 | <0.01 |
| Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 186,655 | 185,276 | 1,379 | 0.74 |
| Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg | 156,652 | 156,408 | 244 | 0.16 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 348,078 | 347,453 | 625 | 0.18 |
| **CYFANSWM** | **14,333,449** | **14,381,750** | **-48,301** | **-0.34** |

**2.8** Y prif reswm dros y gorwariant o £5m a gofnodwyd yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol oedd effaith cynnydd nas rhagwelwyd mewn costau presgripsiynu yn y GIG ym mis Mawrth. Roedd y cynnydd hwn i'w briodoli i lefelau uwch o bresgripsiynu cyn i'r cyfyngiadau symud mewn ymateb i'r pandemig gael eu rhoi ar waith ym mis Mawrth. Mae'r alldro yn cynnwys diffyg net y Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG, sef £88.7m (fel yng Nghyfrifon Terfynol y GIG). Mae'r diffyg hwn wedi'i wrthbwyso gan y ddarpariaeth arfaethedig a neilltuwyd yn y MEG.

**2.9** Roedd y gorwariant yn y MEG Tai a Llywodraeth Leol yn cynnwys £4.6m ar gyllidebau refeniw ac roedd i'w briodoli i gymorth heb ei gynllunio drwy'r Cynllun Cymorth Ariannol Brys a'r Gronfa Cymorth Dewisol. Darparwyd y cyllid yn sgil difrod llifogydd a achoswyd gan y stormydd a effeithiodd ar Gymru ar ddechrau 2020. Cynyddodd costau ychwanegol yr aethpwyd iddynt gan awdurdodau lleol ym mis Mawrth mewn ymateb i'r pandemig y pwysau ar gyllidebau refeniw ymhellach.

**2.10** Mae cyllideb refeniw'r Economi a Thrafnidiaeth yn cyfateb i 85% o gyfanswm y gorwariant. Effeithiodd yr ymateb i'r pandemig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar y gyllideb. Cofnodwyd gorwariant o £41m sy'n cynrychioli taliadau awdurdodau lleol a ad-dalwyd er mwyn rhoi cymorth grant i fusnesau bach a'r sectorau hamdden, lletygarwch a manwerthu.

### *DEL Adnoddau Anghyllidol*[3]

**2.11** Cofnodwyd tanwariant o £194.2m neu 20% o'r gyllideb yn erbyn y gyllideb Adnoddau Anghyllidol. Mae'n bwysig nodi bod y gyllideb Adnoddau Anghyllidol wedi'i chlustnodi ac na ellir ei hailgyfeirio i raglenni gwariant Llywodraeth Cymru. Mae'r cyllidebau hyn yn cwmpasu addasiadau cyfrifyddu megis dibrisiant a darpariaeth i ddileu taliadau benthyciadau i fyfyrwyr.

**2.12** O'r tanwariant hwn mae 93% neu £181.5m yn ymwneud â darpariaeth i ddileu taliadau benthyciadau i fyfyrwyr o fewn y MEG Addysg. Yn y flwyddyn gyfrif, roedd y gyllideb yn cynnwys cryn dipyn o gyllid wrth gefn er mwyn diogelu rhag effeithiau ansicrwydd yn ymwneud â Brexit a chanlyniad yr etholiad cyffredinol. Ni ddefnyddiwyd yr holl gyllid wrth gefn.

**2.13** Roedd gweddill y tanwariant yn ymwneud â thaliadau dibrisiant nas defnyddiwyd ar eiddo Llywodraeth Cymru.

### Alldro DEL Cyfalaf

**2.14** Cofnodwyd tanwariant o £46.9m yn erbyn cyllidebau Cyfalaf sy'n cyfateb i amrywiant o 2.1% yn erbyn y gyllideb. Mae DEL Cyfalaf wedi'i rannu rhwng Cyfalaf Cyffredinol a Thrafodion Ariannol Cyfalaf.

---

[3] Mae DEL Adnoddau Anghyllidol yn gyfanswm rheoli a bennir gan Drysorlys EM sy'n cwmpasu addasiadau cyfrifyddu blynyddol ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr a gafodd eu dileu, symiau eraill a gafodd eu dileu a thaliadau dibrisiant.

### *Cyfalaf Cyffredinol*[4]

**2.15** Y tanwariant ar gyfer y DEL Cyfalaf yn 2019-20 oedd £36.3m, sef amrywiant o 1.9% yn erbyn y gyllideb. O fewn y tanwariant, roedd dau MEG wedi tanwario mwy nag 1% gydag un MEG yn cofnodi gorwariant (0.1%).

**2.16** Mae Tabl 2 yn nodi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Mae esboniadau o'r amrywiannau fel y'u pennir ym mharagraff 2.3 yn dilyn.

| **Tabl 2: Alldro Cyfalaf Cyffredinol yn ôl MEG** | **Cyllideb<br>£000** | **Alldro<br>£000** | **Tanwariant /Gorwariant (-)<br>£000** | **%** |
|---|---|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 426,952 | 425,851 | 1,101 | 0.26 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 644,949 | 644,760 | 189 | 0.03 |
| Economi a Thrafnidiaeth | 501,986 | 467,295 | 34,691 | 6.91 |
| Addysg | 238,042 | 237,955 | 87 | 0.04 |
| Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 89,893 | 90,006 | -113 | -0.13 |
| Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg | 20,520 | 20,181 | 339 | 1.65 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 15,001 | 15,000 | 1 | 0.01 |
| **CYFANSWM** | **1,937,343** | **1,901,048** | **36,295** | **1.87** |

**2.17** Ym MEG yr Economi a Thrafnidiaeth y cofnodwyd elfen fwyaf y tanwariant (96%). Roedd cryn dipyn o'r tanwariant hwn i'w briodoli i gymorth grant i gwmnïau nad oedd wedi cael ei dynnu i lawr yn ôl y disgwyl. Roedd cymorth ar gyfer rhaglenni TGCh hefyd yn is na'r disgwyl ar ôl i gam cyntaf y rhaglen Band Eang Cyflym Iawn ddod i ben. Sicrhawyd arbedion pellach ar y gyllideb ar gyfer yr atebolrwydd treth posibl a oedd yn gysylltiedig â chaffael Llinellau Craidd y Cymoedd. Hefyd, roedd gofyniad llai am gynlluniau teithio llesol rhai awdurdodau lleol. Cafodd rhywfaint o'r tanwariant ei wrthbwyso drwy ohirio gwaredu tir ac asedau i rywbryd yn y dyfodol.

**2.18** Roedd yr unig orwariant a gofnodwyd, er ei fod yn fach, yn erbyn MEG yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig. Roedd y gorwariant hwn i'w

[4] Mae DEL Cyfalaf Cyffredinol yn gyfanswm rheoli a bennir gan Drysorlys EM sy'n cwmpasu grantiau cyfalaf ac asedau a ychwanegwyd.

briodoli i gynnydd yn nifer yr hawliadau am gyfalaf llifogydd brys a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol mewn ymateb i'r llifogydd difrifol yng Nghymru ym mis Chwefror.

**2.19** Cofnodwyd tanwariant bach yn y MEG Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg. Cofnodwyd llithriant yn erbyn sawl cynllun grant cyfalaf, gan gynnwys y rhai mewn cyrff a noddir.

### *Trafodion Ariannol Cyfalaf*[5]

**2.20** Cofnodwyd tanwariant o £10.6m ar y gyllideb trafodion ariannol cyfalaf, sy'n cyfateb i amrywiant o 4.4% yn erbyn y gyllideb.

**2.21** Mae Tabl 3 yn nodi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Mae esboniadau o'r amrywiannau fel y'u pennir ym mharagraff 2.3 yn dilyn.

| **Tabl 3: Alldro Trafodion Ariannol Cyfalaf yn ôl MEG** | **Cyllideb £000** | **Alldro £000** | **Tanwariant /Gorwariant (-) £000** | **%** |
|---|---|---|---|---|
| Tai a Llywodraeth Leol | 130,397 | 129,268 | 1,129 | 0.86 |
| Economi a Thrafnidiaeth | 93,587 | 88,615 | 4,972 | 5.31 |
| Addysg | 10,449 | 10,449 | - | - |
